**JCO479 (a)**

**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00am ddydd Mercher 26 Tachwedd 2025 yn yr Adeilad Addysgu a Dysgu, campws Caerfyrddin

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry

**Yn gweinyddu:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Vanessa Cashmore, Pennaeth Dros Dro, Coleg Sir Gar
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Sharon Lusher, Pro Is-Ganghellor (AB)
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Dr Chris Marshall, Prif Swyddog Staff
Yr Athro Conny Matera-Rogers, Pro Is-Ganghellor (Rhyngwladol)
Jane O'Rourke, Prif Swyddog Pobl
Yr Athro Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor (Addysg)
Lynwen Davies (Cyfieithydd)

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Iwan Thomas

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Richard Bills (ar-lein)
Dr Tracy Cruickshank
Gwyneira Davies
Dr Deborah Hughes
Rowland Jones
Jacqui Kedward (ar-lein)
Chris Martin
Richard Norton
Jonathan Pugh
Emlyn Schiavone (ar-lein)
Katrin Shaw
Jennifer Taylor

**Observer:**
Tianran Liu (UM)

Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.70<br>Ymddiheuriadau | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Kyle Erickson, Geraint Evans, Geraint Roberts a Deris Williams. |
| 25.71<br>Datgan Buddiannau | DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad i Gofrestr Buddiannau 2025/26 i gynnwys aelodau newydd o Gyngor PCYDDS (JCO428). |
| 25.72<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO429). |
| 25.73<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad llafar gan yr Is-Ganghellor. |
| 25.74<br>Adroddiadau'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (RPC) | YSTYRIODD y Cyngor adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (RPC) a gynhaliwyd ar 13 Hydref a 15 Tachwedd 2025 (JCO431).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiadau, tynnodd Cadeirydd yr RPC sylw'r aelodau yn benodol at:<br><br>(a) y diweddariad ariannol, a gyflwynwyd i'r Cyngor fel eitem agenda ar wahân;<br><br>(b) adroddiad blynyddol y Pwyllgor 2024/25.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol 2024/25 y Pwyllgor (JCO432). |
| 25.75<br>Diweddariad ariannol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ariannol a rheoli arian parod (JCO433). |
| 25.76<br>Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) | YSTYRIODD y Cyngor adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) a gynhaliwyd ar 20 Hydref a 17 Tachwedd 2025 (JCO436).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiadau, tynnodd Cadeirydd yr ARC sylw'r aelodau yn benodol at:<br><br>(a) y Gofrestr Risg ddiweddaredig a'r newidiadau arfaethedig i'r Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd; |

| | |
|---|---|
| | (b) argymhellion o ran penodi archwilwyr;<br><br>(c) yr adroddiad Archwilio Allanol a datganiadau ariannol drafft 2024/25, a gyflwynwyd i'r Cyngor fel eitem agenda ar wahân;<br><br>(d) y diweddariad ar seiberddiogelwch a rheolaethau gwrth-dwyll a gyflwynwyd yn yr adroddiad Tryloywder ddwywaith y flwyddyn.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor:<br><br>(a) y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac atodiadau (JCO465);<br>(b) dyfyniad o'r Adroddiad Tryloywder sy'n ymwneud â seiberddiogelwch (JCO466);<br>(c) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2024/25 (JCO437).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor:<br><br>(a) y Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd diwygiedig (JCO464);<br>(b) cynnig yr ARC y dylid gohirio'r tendr Archwilio Allanol am 12 mis, ar y rhagdybiaeth y byddai cynlluniau ar gyfer cylch archwilio 2026/27 yn cael eu cwblhau yn gynnar yn 2027;<br>(c) cynnig yr ARC i ymestyn y contract Archwilio Mewnol presennol tan 31 Gorffennaf 2027, ar y ddealltwriaeth mai hwn fyddai'r estyniad terfynol. |
| 25.77<br>Datganiadau ariannol 2024/25 | YSTYRIODD y Cyngor yr adroddiad Archwilio Allanol a'r farn ar y datganiadau ariannol 2024/25 (JCO438a), ynghyd â'r adroddiad blynyddol archwiliedig a'r datganiadau ariannol ar gyfer y Brifysgol a'i his-gwmnïau (JCO439a).<br><br>Nododd y Cyngor fod y dogfennau wedi cael eu hystyried yn fanwl gan yr ARC.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor lofnodi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn amodol ar gwblhau unrhyw eitemau oedd heb eu cwblhau. |
| 25.78<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (NGC) | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (NGC) a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025 (JCO441).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiadau, tynnodd Cadeirydd yr ARC sylw'r aelodau yn benodol at: |

| | |
|---|---|
| | (a) drafodaeth y Pwyllgor ar argymhellion yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu (GER) a'r cynllun gweithredu a baratowyd gan y Clerc, y cyflwynwyd drafft ohono i'r Cyngor fel eitem agenda ar wahân;<br><br>(b) ystyriaeth y Pwyllgor o adroddiad Gillies ar Brifysgol Dundee, a oedd yn cynnwys rhai sylwadau ar her a llythrennedd ariannol y byddai'r Cyngor yn dymuno eu hystyried yng nghyd-destun adroddiad y GER a'r broses arfaethedig o 'ail-gynefino' aelodau;<br><br>(c) cynnydd o ran recriwtio aelodau annibynnol newydd.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor:<br><br>(a) yr Adroddiad Blynyddol Cwynion 2024/25 (JCO467);<br>(b) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2024/25 (JCO442).<br><br>NODODD y Cyngor:<br><br>(a) Adroddiad Gillies ar Brifysgol Dundee (JCO468) a CHYTUNODD y byddai rhagor o fyfyrio yn digwydd yng nghyd-destun cynllun gweithredu'r GER; |
| 25.79<br>Cynllun gweithredu'r Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu 2025 | YSTYRIODD y Cyngor gynllun gweithredu arfaethedig yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu 2025 (JCO443).<br><br>Nododd y Cyngor fod y cynllun drafft wedi'i drafod yn fanwl yn yr NGC yn ei gyfarfod ym mis Hydref, a bod y fersiwn a gyflwynwyd yn adlewyrchu canlyniadau ei drafodaethau. Cynhwyswyd graddfa amser ar gyfer gweithredu. Roedd trafodaeth yr NGC wedi ystyried adroddiad Gillies ac adroddiad AU Ymlaen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, 'Shaping the future of AU governance'.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y cynllun gweithredu, gan nodi y byddai'r gweithredu'n cael ei fonitro trwy'r NGC. |
| 25.80<br>Adroddiad y Bwrdd Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd (JCO453). |
| 25.81<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2025 (JCO454). |
| 25.82 | YSTYRIODD y Cyngor ddogfennaeth yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Brifysgol â'i chyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Prevent fel a ganlyn (JCO456): |

| | |
|---|---|
| Adroddiad blynyddol Prevent | (a) Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol<br>(b) Adroddiad Data Blynyddol<br>(c) Cynllun Gweithredu Prevent<br>(d) Cofrestr Risg Prevent<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor lofnodi'r Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol a'r Adroddiad Data Blynyddol cyn eu cyflwyno i Medr. |
| 25.83<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | 22 Ionawr 2026 |

Daeth y cyfarfod i ben am 1.10